**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021***

**Pwynt Craffu Technegol:** Ni chodwyd unrhyw bwyntiau technegol

**Pwynt Craffu ar Rinweddau:**

Oherwydd brys y Rheoliadau, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad.

Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad byr iawn o 10 i 13 Rhagfyr 2021 mewn perthynas â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

Nododd y ddogfen ymgynghori honno y byddai newidiadau tebyg yn cael eu cyflwyno mewn perthynas â deddfwriaeth Cymru.

Targedwyd yr ymgynghoriad at randdeiliaid allweddol yn y sector SPS, gan gynnwys sefydliadau masnach a diwydiant cynrychioliadol a grwpiau buddiannau. Darparodd Llywodraeth Cymru fanylion rhanddeiliaid penodol yng Nghymru, y gofynnwyd iddynt ymateb i Lywodraeth y DU.

Gwnaeth swyddogion Defra goladu'r ymateb i'r ymgynghoriad a'i rhannu â Llywodraeth Cymru. Pan ddaeth yr ymgynghoriad i ben, dim ond un ymateb a gafwyd, sef ymateb a oedd yn cefnogi'r cynigion.